OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 648 (Cy. 151)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cwmifor i Faenordeilo, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Mai 2017* |
| *Yn dod i rym* | *11 Mai 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mai 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cwmifor i Faenordeilo, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2017.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**);

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Diwygiwyd paragraff 27 o Atodlen 9 gan baragraff 8 o Atodlen 11 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38). Yn rhinwedd erthyl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun rhwng Cwmifor a Maenordeilo yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 403 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol C2162, i'r gorllewin o Gwmifor hyd at bwynt 300 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd sirol U4489, i'r gorllewin o Faenordeilo, Sir Gaerfyrddin;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**Dirymu**

**4.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Maenordeilo, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2002(**3**) a Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cwmifor, Maenordeilo, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2003(**4**) wedi eu dirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 9 Mai 2017

*Nina Ley*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

---

(**3**) O.S. 2002/2663 (Cy. 255)
(**4**) O.S. 2003/988 (Cy. 137)